


# Pecyn Cymorth ar gyfer Archwiliad Hygyrchedd - Amgueddfeydd

DirectAccess

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

## Achrediad Amgueddfeydd Cymru

Mae'r gofynion ar gyfer achrediad yng Nghymru'n cynnwys darparu Cynllun Mynediad sy'n hygyrch i'r cyhoedd. Rhaid i amgueddfeydd ymrwymo i wella mynediad ffisegol, deallusol a synhwyraidd i safleoedd a chasgliadau eu hamgueddfeydd, a bydd y Cynllun Mynediad yn helpu i osod blaenoriaethau. Mae'r Pecyn Cymorth hwn ar gyfer Archwiliad Hygyrchedd yn eich helpu i adnabod y mannau hynny lle byddai modd gwella hygyrchedd ac mae'n creu Cynllun Gweithredu i flaenoriaethu gwelliannau i fynediad a chyfleusterau'r amgueddfa.

Dylid adolygu Archwiliad Hygyrchedd bob 3 blynedd, neu pryd bynnag y mae newid arwyddocaol yng nghynllun yr amgueddfa.

| | |
|---|---|
| Enw'r Amgueddfa: | |
| Dyddiad yr Archwiliad Hygyrchedd: | |
| Dyddiad Adolygu: | |

### Graddfeydd blaenoriaeth

| | |
|---|---|
| (coch) | Pan mae risgiau posibl i iechyd a diogelwch neu pan fyddai methu â rhoi newidiadau ar waith yn debygol iawn o achosi goblygiadau cyfreithiol. Argymhellir gweithredu ar unwaith i roi'r newidiadau ar waith. |
| (oren) | Pan argymhellir gweithredu yn y tymor byr i wella'r broblem gyda hygyrchedd neu i wneud gwelliannau a fydd yn cael effaith arwyddocaol. |
| (gwyrdd) | Pan argymhellir gweithredu o fewn 12 - 24 mis i wella hygyrchedd. |
| (glas) | Pan ddylid rhoi'r argymhelliad ar waith yn rhan o gynllun tymor hir. Opsiwn arall fyddai 'Meddwl heb Orwelion'. |

NODWCH: Nid yw'r Pecyn Cymorth wedi ei lunio i'w ddefnyddio yn lle archwiliad hygyrchedd llawn, ac nid yw'n rhestr gyflawn na chynhwysfawr o nodweddion i'w hadnabod nag argymhellion

## 1: Teithio i'r safle a dynesu ato



Dylai fod yn hawdd mynd rhwng y safleoedd a'r drafnidiaeth gyhoeddus. Dylai'r safleoedd fod yn hawdd eu hadnabod wrth ddynesu ac yn rhydd o rwystrau. Gall gwybodaeth cyn ymweliad helpu ymwelwyr i gynllunio.

| | | ✓ / ✗ |
|---|---|---|
| 1.1 | Mae mynedfa'r amgueddfa o fewn 400 metr i safle bws neu orsaf drenau. | |
| 1.2 | Mae'r llwybr o'r cludiant cyhoeddus a'r briffordd yn lefel, heb stepiau, a gyda chyrbiau isel. Mae rhybuddion cyffyrddol i'w cael ar y mannau croesi. | |
| 1.3 | Mae'r llwybr i'r safle'n ddigon llydan gydag unrhyw ddail wedi eu tocio'n ôl: isafswm y lled fyddai 1200mm. | |
| 1.4 | Darperir arwyddion a thirnodau gweledol ar y llwybrau sy'n dynesu at yr amgueddfa i helpu ymwelwyr i ddod o hyd iddi. | |
| 1.5 | Nid oes unrhyw nodweddion peryglus fel drysau'n agor tuag allan, ffenestri neu bethau'n bargodi uwchben. | |

| | | |
|---|---|---|
| 1.6 | Mae marciau amlwg mewn lliw gwahanol ar rwystrau fel colofnau, bolardiau a physt er mwyn eu gwneud nhw'n weladwy. | |
| 1.7 | Mae gwybodaeth am gyrraedd yr amgueddfa i'w chael ar eich gwefan, yn cynnwys gwybodaeth cyn ymweliad am y cyfleusterau sydd ar y safle. | |

**Camau gweithredu: Teithio i'r safle a dynesu ato**

| | |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

## 2: Parcio ceir a mannau gollwng



Mae lle parcio neu fan gollwng yn agos at fynedfa yn caniatáu mynediad rhwydd. Mae mannau parcio hygyrch gyda digon o le i'w defnyddio, a mynediad heb risiau i'r safle, yn cefnogi mynediad i'r rhai sydd â symudedd cyfyngedig.

| | | ✓ / ✗ |
|---|---|---|
| 2.1 | Gelir gollwg ymwelwyr o gerbyd gerllaw'r brif fynedfa. | |
| 2.2 | Mae arwydd clir wrth fynedfa'r maes parcio i ddangos lle mae'r cilfannau parcio sydd wedi eu dynodi ar gyfer pobl anabl. | |
| 2.3 | Mae digon o gilfannau parcio wedi eu dynodi i bobl anabl: 6% o gapasiti cyfan y maes parcio. | |
| 2.4 | Mae'r cilfannau parcio sydd wedi eu dynodi i bobl anabl o faint digonol: 4800mm o hyd x 2400mm o led, gyda lle i ddadlwytho wrth yr ochr a'r cefn sy'n 1200mm o led. | |
| 2.5 | Mae'r cilfannau parcio sydd wedi eu dynodi i bobl anabl o fewn 50 metr i'r fynedfa y maen nhw'n ei gwasanaethu. | |

| | | |
|---|---|---|
| 2.6 | Mae cyrbiau isel a rhybuddion cyffyrddol ar y llwybrau at y fynedfa o'r cilfannau parcio sydd wedi eu dynodi i bobl anabl. | |
| 2.7 | Mae arwyneb y maes parcio'n esmwyth, gwastad a heb gerrig rhydd. | |

**Camau gweithredu: Parcio ceir a manau gollwng**

| | |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

## 3: Llwybrau i gerddwyr at y brif fynedfa



Dylai llwybrau o'r briffordd i'r fynedfa fod yn wastad, wedi'u cynnal a'u cadw'n dda, a darparu mynediad diogel i bawb.

| | | ✓ / ✗ |
|---|---|---|
| 3.1 | Cyrhaeddir y brif fynedfa ar lwybr clir, gwastad: lleiafswm y lled fyddai1500mm, ond byddai 1800mm yn well. | |
| 3.2 | Mae arwynebau'r llwybrau'n galed, yn rhesymol esmwyth ac yn gwrthsefyll llithro ymhob tywydd. | |
| 3.3 | Mae'r arwyddion cyfeiriadol yn hawdd eu gweld, yn glir a rhesymegol. | |
| 3.4 | Mae'r goleuadau'n cynhyrchu lefel gyfartal o oleuni. | |
| 3.5 | Mae llwybrau ar wahân i gerddwyr a cherbydau ac mae'r gwahaniaeth wedi ei ddangos yn glir. | |

**Camau gweithredu: Llwybrau i gerddwyr at y brif fynedfa**

| | |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

## 4: Mynedfa’r amgueddfa



Dylai'r fynedfa fod yn amlwg ac yn hawdd ei defnyddio, gyda llwybr heb risiau wedi'i nodi'n glir.

| | | ✓ / ✗ |
|---|---|---|
| 4.1 | Mae llwybr heb stepiau ar gael i fynd i mewn i’r amgueddfa, gyda drws mynediad sydd o leiaf 900mm o led. | |
| 4.2 | Gellir gweld y brif fynedfa’n glir wrth ddynesu ati. Os oes ail fynedfa heb stepiau ar gael, dylid dangos arwyddion clir i esbonio hynny i bobl sy’n dynesu. | |
| 4.3 | Os oes ramp ar y fynedfa i’r amgueddfa, ni ddylai’r ramp fod fwy na 10m o hyd ac ni ddylai godi fwy na 500mm o uchder i gyd. Mae’n rhaid i rampiau hirach gael darn glanio gwastad er mwyn i bobl gael seibiant.<br>Dylai’r ramp fod o leiaf 1500mm o led, bod ag ymylon sy’n codi ar y ddwy ochr er diogelwch, rheilen law heb doriad ynddi ar bob ochr ac arwyneb gwrth-lithr. | |
| 4.4 | Os oes stepiau at y fynedfa, dylai dyfnder pob gris fod rhwng 150mm a 170mm o uchder, a dylai rhan lorweddol pob gris fod yn 300mm – 450mm o hyd. Dylid cael rheilen law ddi-dor ac arwyneb gwrth lithr ar y stepiau. | |

| | | |
|---|---|---|
| 4.5 | Mae drws y brif fynedfa a drysau'r cyntedd yn hawdd eu hagor gydag un llaw neu'n awtomatig. Mae arwydd clir am gyfeiriad agor y drws: gwthio neu dynnu.<br>Dylai drysau awtomatig aros yn agored yn ddigon hir i adael i bobl sy'n symud yn araf basio drwyddynt. Dylai padiau gweithredu'r drysau fod yn hawdd eu gweld wrth ddynesu. | |
| 4.6 | Gall bobl tu mewn a thu allan i ddrws y fynedfa weld ei gilydd a chael eu gweld, p'un a ydyn nhw'n sefyll neu'n eistedd. | |
| 4.7 | Os yw drysau'r fynedfa yn wydr i gyd mae ganddynt farciau arnynt i'w gwneud yn ddiogel a gweladwy ar ddau uchder, mewn lliw sy'n cyferbynnu'n briodol yn erbyn y cefndir. | |

**Camau gweithredu: Mynedfa'r amgueddfa**

| | |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

## 5: Y Dderbynfa



Rhaid i ddesgiau a mannau derbyn fod yn hawdd eu darganfod a'u defnyddio gan bawb.


| | | ✓ / ✗ |
|---|---|---|
| 5.1 | Mae desg y dderbynfa’n weladwy o fynedfa’r amgueddfa. | |
| 5.2 | Mae cownter desg y dderbynfa ar uchder sy’n addas i bobl sy’n sefyll a phobl sy’n eistedd: rhwng 950mm a 1100mm ar gyfer y rhai sy’n sefyll, a 760mm o uchder gyda chilfan bengliniau sy’n 700mm o ddyfnder ar gyfer y rhai sy’n eistedd. | |
| 5.3 | Mae desg y dderbynfa’n glir o rwystrau ac yn caniatáu lled cylchdroi o 1200mm o leiaf. | |
| 5.4 | Darperir system dolen sain ac arwyddion i ganiatáu i bobl sy’n defnyddio cymhorthion clyw dderbyn gwybodaeth ar lafar. | |
| 5.5 | Os oes angen sgrin wydr, nid yw’n wydr sy’n adlewyrchu ac nid oes sglein arni oherwydd gallai hynny amharu ar bobl sy’n darllen gwefusau. | |

| | | |
|---|---|---|
| 5.6 | Mae seddi wedi eu darparu yn y dderbynfa, ac mae rhai ohonynt yn seddi gyda breichiau. | |

**Camau gweithredu: Y Dderbynfa**

| | |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

## 6: Cylchrediad llorweddol



Mae ardaloedd sy’n hawdd symud o’u cwmpas ac i mewn ac allan ohonynt yn golygu eu bod yn hygyrch.


| | | ✓ / ✗ |
|---|---|---|
| 6.1 | Mae arwyddion clir wedi eu gosod yn gyson o amgylch yr amgueddfa, gan ddefnyddio symbolau yn ogystal â geiriau a chliwiau gweledol. | |
| 6.2 | Mae’r coridorau’n glir o rwystrau ac yn ddigon llydan i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn symud o gwmpas: 1200mm o leiaf. | |
| 6.3 | Mae unrhyw newidiadau yn lefel y llawr wedi eu dangos yn glir, gyda stepiau a rampiau wedi eu darparu lle mae’r newidiadau yn lefel y llawr yn fwy na 300mm. | |
| 6.4 | Mae’r drysau mewnol yn agor yn glir i led sy’n ddigonol i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn: 750mm o leiaf. | |
| 6.5 | Mae’r drysau mewnol yn ddigon ysgafn i agor yn hawdd gydag un llaw ac mae ganddynt ddigon o le ar yr ymyl arweiniol i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn agor y drws gan hefyd gadw’n glir o’r gofod y mae’r drws yn symud ynddo. | |

| | | |
|---|---|---|
| 6.6 | Mae handlenni'r drws a dyfeisiau diogelwch ar uchder sy'n addas i bobl sy'n sefyll a phobl sy'n eisteddd, maen nhw'n hawdd eu gweld yn erbyn y drws ac maen nhw'n rhwydd eu defnyddio. Ni ddylid defnyddio cloeon diogelwch gyda botymau gwasgu cod i'w hagor. | |
| 6.7 | Defnyddir lliwiau, tonau a gweadau sy'n gwrthgyferbynu â'i gilydd i helpu pobl i wahaniaethu rhwng arwynebau, gosodion a ffitiadau. | |
| 6.8 | Dylai llwybrau awyr agored gael:<br>a. Dim rhwystrau ffisegol sy'n cyfyngu'r mynediad nes bo'n gulach na 1100mm.<br>b. Uchder clir o 2400mm o leiaf<br>c. Arwynebau sy'n galed a gwastad ymhob tywydd, heb ddim cerrig rhydd.<br>ch. Mannau gorffwyso bob 100m o leiaf. | |
| 6.9 | Mae gatiau'r ardal tu allan yn hawdd eu gweithredu p'un a ydych yn sefyll neu'n eistedd, gyda digon o le i droi o gwmpas ar y ddwy ochr. Nid oes gatiau mochyn na chamfeydd. | |

**Camau Gweithredu: Cylchrediad llorweddol**

| | |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

## 7: Cylchrediad Fertigol




Ffynhonnell: Exhibitions for All

Dylai ymwelwyr allu cael mynediad i bob man lle mae cyfyngiadau'r adeilad yn caniatáu hynny.

| | | ✓ / ✗ |
|---|---|---|
| 7.1 | Gellir cyrraedd pob ardal ar lawr lefel neu gyda rampiau, neu mewn lifft. | |
| 7.2 | Mae gan stepiau dan do ac awyr agored:<br>a. reilen law ddi-dor ar y ddwy ochr ar uchder sy'n gyfleus i bob defnyddiwr,<br>b. lliw cyferbyniol ar yr ymyl rhwng darn fertigol a darn llorweddol bob gris,<br>c. arwyneb gwrth-lithro.<br>Nid oes stepiau unigol na grisiau lle mae'r darn fertigol yn agored. | |
| 7.3 | Mae gan y rampiau dan do a'r rampiau awyr agored sydd â graddiant sy'n fwy serth na 1:20 (5%):<br>a. rheilen law ddi-dor ar y ddwy ochr ar uchderau sy'n gyfleus i bob defnyddiwr,<br>b. platform gorffwys gwastad ar unrhyw rampiau sy'n hirach na 10m neu sy'n codi fwy na 500mm o uchder,<br>c. gwrthgyferbyniad lliw rhwng arwynebau gwastad ac arwynebau ar lethr,<br>ch. arwyneb gwrth-lithro. | |
| 7.4 | Mae dimensiynau cerbyd lifft yn ddigon i ganiatáu lle i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn: isafswm o 1400mm x 1100mm.<br>Mae drysau'r lifftiau'n agor yn ddigon llydan i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn: isafswm o 800mm. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae botymau rheoli cerbydau lifft wedi eu lleoli rhwng 900mm a 1200mm o lawr y cerbyd ac mae ganddynt nodweddion cyffyrddol a gwrthgyferbyniol i ddangos beth yw pob rheolydd yn glir. | |
| 7.5 | Mae gan lifftiau platfform i gadeiriau olwyn a lifftiau grisiau:<br>a. fesuriadau platfform o 800mm x 1250mm o leiaf,<br>b. rheolyddion y mae'n rhaid eu gwasgu'n barhaus i'r lifftiau symud,<br>c. cyfarwyddiadau clir ynglŷn â sut i'w defnyddio,<br>ch. botymau rheoli wedi eu llunio i atal defnydd diawdurdod,<br>d. isafswm capasiti llwyth o 250kg. | |

**Camau gweithredu: Cylchrediad fertigol**

| | |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

## 8: Toiledau – Hygyrch a Chyffredinol



Ffynhonnell: www.unek.co.uk

Dylid darparu o leiaf un toiled hygyrch, sydd â'r holl ffitiadau gofynnol wedi'u lleoli'n gywir i ganiatáu i bobl allu defnyddio'r cyfleuster.

| | | ✓ / ✗ |
|---|---|---|
| 8.1 | Os nad oes lle ar gyfer mwy nag un toiled mewn adeilad, mae'n fath neillryw sy'n hygyrch i gadair olwyn: lleiafswm y dimensiynau yw 2200mm x 1500mm.<br>Mae'r toiled wedi ei leoli mor agos ag sy'n bosibl i'r fynedfa, o fewn 40m i doiledau eraill ac mae ganddo ddigon o le y tu allan i gompartment y toiled i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn symud o gwmpas.<br>Ni ddylai toiledau neillryw sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn gael eu defnyddio ar gyfer newid cewynnau babanod, heblaw bod y ciwbicl yn fwy, sef 2200mm x 2000mm. | |
| 8.2 | Mae gan doiledau hygyrch reolyddion drws, cloeon, a switsys golau sy'n hawdd eu cyrraedd a'u gweithredu.<br>Mae bar cau llorweddol sydd wedi'i ffitio ar ddrws wedi ei osod ar wyneb mewnol y drws ac yn gallu cael ei agor tuag allan, o'r tu allan, rhag ofn y bydd argyfwng. | |
| 8.3 | Mae'r offer dilynol wed eu gosod mewn toiledau hygyrch, a'u lliwiau'n gyferbyniol: | |

| | | |
|---|---|---|
| | a. rheilen gydio fertigol ar y wal y tu ôl i'r toiled,<br>b. rheilen gydio lorweddol ar y wal wrth ochr y toiled,<br>c. rheilen gydio sy'n tynnu i lawr rhwng y toiled a'r man trosglwyddo,<br>ch. rheiliau cydio y naill ochr a'r llall i'r sinc.<br>d. darperir gwrthgyferbyniad lliw rhwng gorffeniadau'r waliau a'r llawr. | |
| 8.4 | Mae gan doiledau hygyrch fecanwaith fflysio ar ochr agored neu ochr drosglwyddo'r toiled, sy'n gallu cael ei weithredu gan ddefnyddio dwrn caeedig. | |
| 8.5 | Mae gan doiledau hygyrch gyfleusterau golchi a sychu dwylo o fewn cyrhaeddiad hawdd i rywun sy'n eistedd ar y toiled. | |
| 8.6 | Mae toiledau hygyrch yn cynnwys:<br>a. tapiau sy'n cael eu rheoli'n awtomatig, neu sy'n gallu cael eu gweithredu gan ddefnyddio dwrn caeedig,<br>b. darparydd sebon ar y wal a darparydd tywelion papur uwchlaw'r sinc, 800mm-1000mm uwchlaw'r llawr<br>c. darparydd papur toiled gerllaw'r toiled wedi ei osod 800mm-1000mm uwchlaw'r llawr,<br>ch. bin gwaredu rhwng y sinc a'r drws,<br>d. silff rhwng y sinc a'r drws wedi ei osod 720mm-740mm uwchlaw'r llawr,<br>dd. drych hyd llawn ar y wal bellaf,<br>e. bachau dillad. | |
| 8.7 | Mae gan doiledau hygyrch badell toiled sy'n gallu derbyn codwr sedd toiled o uchderau amrywiol. Darperir seston lefel isel neu gynhalydd cefn i gynnal y defnyddiwr. | |
| 8.8 | Mae gan doiledau hygyrch gordyn tynnu i ganu larwm am gymorth mewn argyfwng, yn hongian yn rhydd o fewn cyrhaeddiad hawdd o'r llawr, gyda dangosyddion gweledol a chlywedol (sy'n swnio'n amlwg wahanol i'r larwm tân) a botwm ailosod y gellir ei gyrraedd o gadair olwyn ac o'r toiled. | |
| 8.9 | Mae ochr drosglwyddo padell y toiled wedi ei chadw'n glir o unrhyw rwystrau a allai atal defnyddwyr cadair olwyn rhag defnyddio unrhyw un o'r technegau trosglwyddo. | |
| 8.10 | Lle nad oes toiled hygyrch ar gael, mae o leiaf un ciwbicl mwy o faint mewn toiled i rywiau ar wahân i helpu pobl anabl sy'n gallu cerdded neu'r rhai sydd angen mwy o le. | |
| 8.11 | Mae gan bob toiled:<br>a. ddrysau digon ysgafn i'w hagor yn hawdd,<br>b. llawr gwrth-lithro,<br>c. ffitiadau ac offer glanweithdra mewn lliwiau cyferbyniol i'r pethau sydd o'u hamgylch fel eu bod yn hawdd eu gweld,<br>ch. offer rheoli drysau sy'n hawdd cydio ynddynt a'u gweithredu, | |

| | | |
|---|---|---|
| | d. drysau ciwbicl gyda lliwiau'n gwrthgyferbynu â'r panelau ochr. | |
| 8.12 | Mae arwyddion clir yn yr ardal sy'n arwain at y toiledau ac ar ddrysau'r cyfleusterau, gyda phictogramau, i ddangos lleoliad y toiledau hygyrch a thoiledau eraill. | |

**Camau gweithredu: Toiledau – Hygyrch a Chyffredinol**

| | |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

## 9: Cyfleusterau

Lle mae cyfleusterau wedi eu darparu, dylid ystyried sut y gall bawb gael mynediad cyfartal iddynt. Gall darparu cyfleusterau sy'n gynhwysol i bawb wella'r profiad i ymwelwyr.

| | | ✓ / ✗ |
|---|---|---|
| 9.1 | Mae cyfleusterau manwerthu'n darparu cynhyrchion o fewn cyrraedd i'r rhai sy'n sefyll ac yn eistedd.<br>Mae'r man talu'n cynnwys cownter sy'n addas i'w ddefnyddio gan bobl sy'n sefyll a phobl sy'n eistedd. | |
| 9.2 | Mae gan gyfleusterau caffi fynedfa lefel, cownteri bwyd ar lefelau sy'n addas i'w defnyddio gan bobl sy'n sefyll a phobl sy'n eistedd, o leiaf 900mm o le rhwng y byrddau a rhai seddi gyda breichiau.<br>Mae bwydlenni'r caffi ar gael mewn fformatau hygyrch. | |
| 9.3 | Mae pecynnau synhwyraidd ar gael gydag amddiffynwyr clustiau. | |
| 9.4 | Mae ystafell dawel wedi ei darparu ar gyfer unigolion y mae eu synhwyrau wedi eu llethu neu sydd angen gorffwys. | |
| 9.5 | Mae'r cyfleusterau gorffwyso i'r staff yn hygyrch ac mae ganddynt arwynebau gwaith mewn ceginau ar ddau uchder; tapiau lifer a rhai seddi gyda breichiau. | |
| 9.6 | Mae lefel y goleuo'n ddigonol ar gyfer y defnydd a fwriedir.<br>Mae'r goleuadau wedi eu gosod lle nad ydynt yn achosi llewyrch, adlewyrchiad, cysgodau dryslyd na phyllau o oleuni a thywyllwch. | |
| 9.7 | Mae rhai seddi awyr agored ar arwyneb gwydn i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn fynd atynt a'u defnyddio, ac mae gan y byrddau gilfannau amlwg i'r pengliniau. | |
| 9.10 | Mae cyfleusterau chwarae'n cynnwys cyfleoedd chwarae hygyrch e.e. carwsél cadeiriau olwyn, siglen nyth, strwythurau gyda ramp. | |

**Camau gweithredu: Cyfleusterau**

| | |
|---|---|
| | |
| | |

## 10: Mannau arddangos



Dylai mannau arddangos gynnwys gwybodaeth mewn fformatau amgen a hyrwyddo llywio hawdd o gwmpas y gofod a'r stori.


| | | ✓ / ✗ |
|---|---|---|
| 10.1 | Darperir seddi gyda breichiau a seddi o wahanol uchder bob hyn a hyn ar hyd y llwybrau mewnol. Mae lliw'r seddi'n gwrthgyferbynu â'u cefndir. | |
| 10.2 | Darperir llwybrau cylchdroi clir o amgylch blychau arddangos: lled o 1800mm ar gyfer llwybrau cylchdroi mawr a 1200mm ar gyfer llwybrau cylchdroi eilaidd, gyda mannau troi o 1800mm. | |
| 10.3 | Darperir digon o olau ar y llwybrau cylchdroi, ond gan osgoi creu pyllau o olau a chysgod. | |
| 10.4 | Nid yw'r platfformau ar gyfer gwrthrychau'n achosi peryglon baglu ac nid ydynt yn estyn allan yn annisgwyl i mewn i lwybr symud pobl. Mae gan blatfformau liwiau sy'n gwrthgyferbynu â'r lloriau a'r waliau. | |
| 10.5 | Mae gan flychau arddangos wydr sydd ddim yn adlewyrchu. | |
| 10.6 | Mae modd newid uchder y gweithgareddau rhyngweithiol neu mae cilfannau penglin ynddynt i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae offer rheoli'r gweithgareddau mewn lliw cyferbyniol er mwyn eu gwneud yn hawdd eu gweld, mae modd eu gweithredu gyda dwrn caeedig ac mae ganddynt nodweddion cyffyrddol. | |
| 10.7 | Mae cyflwyniadau clywedol yn dangos is-deitlau i bobl gydag amhariad ar eu clyw, maen nhw wedi eu trawsgrifio neu mae ganddynt ddisgrifiad sain.<br>Mae cyfieithiad Iaith Arwyddion Prydain ar gael. | |
| 10.8 | Lle mae sioe deledu heb ddim sain, neu mae sain gefndirol yn chwarae, dangosir hyn mewn ffordd briodol. | |
| 10.9 | Mae cynllun cyffredinol y lle arddangos yn rhesymol glir a rhesymegol. Mae'r arwyddion ar gael mewn Braille a fformatau cyffyrddol. | |
| 10.10 | Mae mapiau'n cael eu darparu wrth y fynedfa i arddangosfeydd ac wrth ddesgiau gwybodaeth, sy'n galluogi i bobl gynllunio sut i symud drwy arddangosfeydd a mannau awyr agored cymhleth. Dylai'r rhain fod ar gael mewn fformatau amgen, e.e. cyffyrddol. | |

**Camau gweithredu: Lle arddangos**

| | |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

## 11: Eitemau arddangos




Ffynhonnell: Exhibitions for All

Mae cynllun hygyrch yn sicrhau y gall pawb fwynhau'r eitemau sy'n cael eu harddangos.


| | | ✓ / ✗ |
|---|---|---|
| 11.1 | Mae eitemau sydd wedi eu gosod ar y wal wedi eu harddangos mewn parth edrych cyfforddus ar gyfer y rhai sy’n sefyll a’r rhai sy’n eistedd:<br>rhwng 750mm a 2000mm uwchlaw lefel y llawr. | |
| 11.2 | Mae’r arddangosion wedi eu labelu mewn testun mawr, clir a ffont sans serif y bydd llawer o bobl yn ei gael yn hawdd ei adnabod. Mae testun y labeli’n cyferbynu â lliwiau’r cefndir, mae wedi ei brintio ar gefndir solid ac nid yw wedi ei brintio dros luniau. | |
| 11.3 | Dylai brawddegau ar labeli fod yn fyr, yn hawdd eu deall ac osgoi jargon. | |

| | | |
|---|---|---|
| 11.4 | Mae gweithgareddau rhyngweithiol ar lwybrau hygyrch o fewn cyrraedd i'r rhai sy'n eistedd ac yn sefyll. Mae'r holl gyfarwyddiadau wedi eu darparu mewn fformat clywedol ac wedi'i brintio. | |
| 11.5 | Gosodwch eitemau bach yn rhan flaen y blwch, ac eitemau mwy y tu ôl iddynt.  Darparwch ffotograffau i wneud i wrthrychau sydd angen bod mewn safle uchel i fyny a/neu o dan olau gwael fod yn hygyrch. | |
| 11.6 | Darperir gwybodaeth am y ffordd yr ydych chi'n rhannu eich casgliad a sut y gall bawb ei ddefnyddio a chyfeirio ato. | |
| 11.7 | Cynhwyswch eitemau a gwrthrychau o ddiddordeb y gall yr ymwelwyr i gyd eu cyffwrdd a'u trin, nid y rhai sydd â golwg gwan neu sy'n ddall yn unig. | |
| 11.8 | Darparwch ddisgrifiad sain ar gyfer gwrthrychau na ellir eu cyffwrdd neu sydd ddim yn cynnig llawer o wybodaeth drwy gyffyrddiad (e.e. paentiadau). | |

**Camau gweithredu: Eitemau arddangos**

| | |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

## 12: Rheoli'r Safle a Mynd Allan mewn Argyfwng




Ffynhonnell: Exhibitions for All

Mae cyfathrebu, hyfforddiant ymwybyddiaeth a rheolaeth ragweithiol yn sicrhau bod pob ymwelydd yn cael profiad cadarnhaol a diogel.

| | | ✓ / ✗ |
|---|---|---|
| 12.1 | Mae gwefan yr amgueddfa'n cael ei diweddaru'n rheolaidd gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am hygyrchedd, yn cynnwys cyfleusterau a hysbysiad am unrhyw gyfyngiadau oherwydd bod lifftiau wedi torri neu am fod unrhyw broblemau cynnal a chadw ar y safle. | |
| 12.2 | Mae gwefan yr amgueddfa'n hygyrch i'r ymwelwyr i gyd. | |
| 12.3 | Mae'r staff yn derbyn hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth am anabledd a chynhwysiant yn rheolaidd. | |

| | | |
|---|---|---|
| 12.4 | Mae arwyddion i ddangos y ffordd wedi eu gosod yn rheolaidd ac yn defnyddio symbolau yn ogystal â geiriau a chliwiau gweledol. | |
| 12.5 | Mae'n bosibl mynd allan o'r lle arddangos mewn argyfwng mewn ffordd gwbl hygyrch. Darparwch lochesi i helpu gydag achub os nad oes digon o allfeydd hygyrch, neu ar loriau uwch. | |
| 12.6 | Mae'r llwybrau cylchdroi a gwagio'r safle, yn cynnwys stepiau a rampiau, yn cael eu gwirio'n rheolaidd i weld a oes rhwystrau ac maen nhw'n cael eu cadw'n lân. | |
| 12.7 | Mae'r cynlluniau sydd yn eu lle ar gyfer ymadael â'r safle mewn argyfwng yn cael eu hymarfer yn rheolaidd ac maen nhw'n cynnwys cymorth i ymwelwyr/staff anabl. | |

**Camau gweithredu: Rheoli Safle a Mynd Allan mewn Argyfwng**

| | |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

## Cynllun Gweithredu

Dewiswch eitemau ar gyfer adeiladu eich Cynllun Gweithredu, gan flaenoriaethu gwelliannau sy'n berthnasol i safle a chasgliadau eich amgueddfa chi.

| Blaenoriaeth | Argymhellion |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

| | |
|---|---|
| | |
| | |

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government